# DAVIES, JOHN LLEWELYN (1826 - 1916), cyfieithydd, caplan, ac un o ddringwyr cynnar mwyaf llwyddiannus yr Alpau

**Enw:** John Llewelyn Davies
**Dyddiad geni:** 1826
**Dyddiad marw:** 1916
**Rhiant:** John Davies
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cyfieithydd, caplan, ac un o ddringwyr cynnar mwyaf llwyddiannus yr Alpau
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden
**Awdur:** Ioan Bowen Rees

Mab John Davies, offeiriad ac athronydd. Yr oedd yn gymrawd o Goleg y Drindod, Caergrawnt, 'Hulsean Lecturer' yn y brifysgol honno, 'Lady Margaret Preacher' yn Rhydychen, yntau hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cwestiwn addysg uwch i ferched, a chyfaill Frederick Denison Maurice; y mae'n adnabyddus iawn fel cyd-gyfieithydd *Gwladwriaeth* Platon.

Yr oedd yn un o 31 aelod gwreiddiol y Clwb Alpaidd ac yn un o ddringwyr cynnar mwyaf llwyddiannus yr Alpau. Ef, gyda'r tywysydd Johann Zumtaugwald a thywysyddion eraill, oedd y cyntaf i ddringo'r Dom (14,942 tr.), y mynydd uchaf a berthyn i'r Swistir yn unig (hyn ar 11 Medi 1858) ac, yn 1862, y Täsch-horn (14,700 tr.). Esgynnodd y Finsteraarhorn mor gynnar â 29 Awst 1857. Dim ond un ysgrif ar fynydda a gyhoeddodd, ' An ascent of one of the Mischabel-Hörner, called the Dom ' (*Peaks, passes and glaciers*, cyfres gyntaf, 1859) ond yr oedd yn fawr ei barch gan Leslie Stephen, ysgrifwr mynydd gorau'i gyfnod, a fu'n ddisgybl iddo.

## Awdur

**Dr Ioan Bowen Rees**, (1929 - 1999)

## Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*, 1912 -21, 147

A. L. Mumm, *The Alpine Club register, 1857-1863* (Llundain 1923), 85-7

*Alpine Journal*, 30, 324-30

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 59216257

Wikidata: Q18762028

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu